



Adroddiad i	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (BGC)
Dyddiad y Cyfarfod	Dydd Llun, 13 Rhagfyr 2021
Aelod Arweiniol/Swyddog	Graham Boase, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych
Awdur yr Adroddiad:	Nicola Kneale, Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol CSDd a Shannon Richardson, Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Asesiad o Les Conwy a Sir Ddinbych 2021 – Cymeradwyo Ymgynghoriad

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Lansiad yr ymgynghoriad ar Asesiad o Les Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2021 a gynhyrchwyd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 1.2. Nodwch fod y papur hwn yn ymwneud â lansiad yr ymgynghoriad ar yr Asesiad o Les. Bydd cyfle i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drafod ei gynnwys a chyfeirio at ei gasgliadau yn ystod y Sesiwn Datblygu Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 31 Ionawr 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'r broses yr ymgwymerwyd â hi i adfywio'r Asesiad o Les ers ei lansiad cychwynnol yn 2017, a'r camau nesaf ar gyfer lansio'r ymgynghoriad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Argymhellir bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cymeradwyo lansiad yr ymgynghoriad ar Asesiad o Les Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych;
- 3.2. Bod y BGC yn deall ac yn cytuno ar y dull o lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Asesiad o Les.
- 3.3. Bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn ystyried yr adborth a gafwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr asesiad o les blaenorol a oedd yn gofyn i ni fod yn fwy penodol yn ein hymateb i'r Asesiad o Les

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae gwaith wedi bod ar y gweill gyda phartneriaid o'r Cynghorau, BIPBC, CNC a HGC ar draws Conwy a Sir Ddinbych ers mis Ionawr 2021 i adolygu Asesiad o Les presennol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych. Cafwyd adborth ar yr ymchwil a'r dadansoddiad gan Brifysgol Glyndŵr a Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Nid yw'r siwrnai wedi dechrau gyda syniadau a ffurfiwyd eisoes neu ddadansoddiadau o ddata haniaethol ond ag ymgysylltiad eang â chymunedau lleol a'r staff sy'n gweithio yn y gwahanol sefydliadau sector cyhoeddus.
- 4.2. Drwy wneud ymchwil ar draws amrywiaeth o bynciau sydd wedi'u halinio â'r saith nod llesiant cenedlaethol, rydym wedi dynodi cyfres o destunau trawsbynciol pwysig ar draws siroedd Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn Atodiad A, yn y Crynodeb Gweithredol.

- 4.3. Mae'r Asesiad o Les cyfan yn gorff o ymchwil cadarn ac eang sy'n rhoi darlun o Gonwy a Sir Ddinbych heddiw ac yn y dyfodol o ran y cyfleoedd a'r heriau a ragwelir. Bydd y wybodaeth hon ar gael ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar fformat 'Wikipedia', fel yr oedd yn flaenorol. Canmolwyd y fformat hwn yn y gorffennol am ei hygyrchedd ac am y gallu i adnewyddu'r wybodaeth am fod hyn yn ei wneud yn ased cynllunio gwerthfawr ac ymarferol ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector/sectorau llawr gwlad yn y sir, felly rydym wedi cadw ato. Mae cynnwys yr asesiad yn cael ei gyfieithu ar hyn o bryd ac mae cyhoeddiad ar-lein yn cael ei baratoi ac fe ddylai fod wedi'i gwblhau yn gynnar ym mis Ionawr 2022.
- 4.4. Mewn termau ymarferol, byddwn yn ymgynghori ar gynnwys yr Asesiad drwy gyhoeddi'r Crynodeb Gweithredol (Atodiad A) a darparu dolenni at yr asesiad ar-lein.
- 4.5. Yn unol â therfynau amser statudol rydym yn bwriadu cynnal yr ymgynghoriad ar yr Asesiad o Les rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2022 am wyth wythnos. Unwaith y bydd unrhyw adborth gan y cyhoedd wedi'i ystyried ac unrhyw newidiadau angenrheidiol dilynol wedi'u gwneud, bydd yr asesiad terfynol yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar 23 Mawrth 2022. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i gyhoeddi'r Asesiad o Les o fewn y terfyn amser statudol sef 5 Mai 2022.
- 4.6. Mae'r cwestiynau arfaethedig ar gyfer yr ymgynghoriadau wedi'u nodi yn ein cynllun cyfathrebu ac wedi'u hamlinellu isod:
1. Ydych chi'n meddwl bod y wybodaeth yn yr Asesiad o Les yn gywir?
 2. Ydych chi'n teimlo bod unrhyw beth y mae angen ei newid yn yr Asesiad o Les?
 3. Ydych chi'n teimlo bod unrhyw beth ar goll ac y dylid ei gynnwys yn yr Asesiad o Les?
 4. Sut ydych chi'n gweld yr adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio yn eich sefydliad chi?
 5. A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud am yr Asesiad?
- 4.7. Mae cynllun cyfathrebu wedi'i ddatblygu er mwyn sicrhau ein bod yn cyhoeddi datganiad i'r wasg; yn cyhoeddi'r ymgynghoriad ar wefannau ein sefydliadau; yn ei

bostio yn y cyfryngau cymdeithasol; e-bostio i bob rhanddeiliad; hysbysu papurau newydd llafar a sefydlu arolwg ar-lein (a sicrhau bod copïau papur ar gael). Mae'r ymgynghoreion statudol ac anstatudol yn cynnwys:

- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Aelodau a Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Partneriaid eraill e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cyngor Celfyddydau
- Cyd-bwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych
- Sefydliadau trydydd sector perthnasol
- Y cyhoedd.
- Busnesau Lleol
- Undebau Llafur
- Cyngorau Dinas, Tref a Chymuned
- Partneriaethau Conwy a Sir Ddinbych
- Partneriaethau ar draws Gogledd Cymru e.e. y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru

4.8 Darparodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru adborth hollbwysig ar ein hasesiad blaenorol. Lle bynnag yr oedd modd, rydym wedi rhoi sylw i, neu wedi dechrau rhoi sylw i - feysydd y teimlwyd y gellid eu gwella neu eu gwneud yn fwy eglur. Ar y cyfan roeddent yn cymeradwyo ein hymdriniaeth seiliedig ar y we ac rydym wedi parhau â hyn. Mewn manau rydym wedi gorfod tynnu graffeg wedi'i ymgorffori neu siartiau er mwyn diwallu safonau hygyrchedd. Mae'r sylwadau llawn ar ein cynnydd mewn perthynas ag adborth y Comisiynydd i'w gweld yn Atodiad B.

4.9 Ers cynhyrchiad yr Asesiad o Les cyntaf yn 2017 mae capasiti ymchwil timau Conwy a Sir Ddinbych wedi lleihau'n sylweddol. Er hynny mae'r timau wedi cynhyrchu dogfen strategol o safon uchel ar y sefyllfa bresennol yn y ddwy sir. Pe bai mwy o allu i ymchwilio ac ymgysylltu yn y sector cyhoeddus byddai posibilrwydd o gryfhau'r

Asesiad ymhellach drwy edrych ar feysydd gwannach ac unrhyw fylchau mewn gwybodaeth, a deall penderfynyddion anghydraddoldeb lles yn well.

4.10 Wrth ddatblygu'r cynllun daeth yn amlwg bod ymgysylltiad â grwpiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml yn faes arbennig o wan. Fe wnaethom felly gomisiynu ymgysylltiad a chynnal fforwm lleisiau cymunedol rhyngweithiol i roi llais i grwpiau nas clywir yn aml. Mae posibilrwydd i'r dull cydweithredu rhanbarthol hwn, drwy dimau cydlynid cymunedol, ddatblygu ymhellach er mwyn cryfhau perthnasoedd â chymunedau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml a chreu sgwrs ac adborth parhaus.

5. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

5.1 I ddatblygu'r asesiad o les mae amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu cymunedol wedi'u cynnal ar draws Conwy a Sir Ddinbych er mwyn clywed safbwyntiau cymunedau. Yn ychwanegol cafodd arolygon ar-lein eu hyrwyddo a gofynnwyd i bob sefydliad cyhoeddus gyflwyno'n ddiennw adborth ymgysylltu yr ymgwymerwyd ag o dros y 2 flynedd ddiwethaf er mwyn i ni allu dysgu o sylwadau a themâu cymunedau. Gweler Atodiad C am ragor o wybodaeth ar ein hymagwedd tuag at ymgysylltu.

6. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

6.1. Mae risg na fydd yr adnodd gwerthfawr hwn yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial gan bartneriaid. Yn ychwanegol at ymgynghori, byddwn felly'n dyfeisio rhaglen o gyhoeddusrwydd i sicrhau bod cydweithwyr o bob sector yn ymwybodol o'r Asesiad ac ymhle i ddod o hyd iddo, a sut y gall gynorthwyo i wneud penderfyniadau gwybodus.

6.2. Mae perygl nad yw partneriaid yn cadw hyn yn gyfredol a thrwy hynny y bydd defnyddioldeb y safle'n cael ei danseilio, gan olygu hefyd y bydd angen adolygiad ar raddfa fawr yn y dyfodol. Gall cyswllt rheolaidd rhwng swyddogion cymorth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gyda chyfeiriad clir gan y Bwrdd, liniaru'r risg hwn.

6.3. Fel y nodwyd dan baragraff 4.9 mae posibilrwydd y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried ymdriniaeth ranbarthol o ran ymchwil, data a dadansoddi a allai o bosibl liniaru'r risg hwn.

7. Pŵer i wneud y penderfyniad

7.1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015